**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3ydd Chwefror 2014**

# BIL GWASANAETHAU CYHOEDDUS (GWEITHLU) (CYMRU): YMATEB I YMGYNGHORIAD

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus drwy Arweiniad ar y Cyd a Deddfwriaeth': Ymgynghoriad ynghylch Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) Cymru.

## Gwybodaeth

2 Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Bil arfaethedig a fyddai, i ddechrau, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar y materion a ganlyn sy'n ymwneud â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, ac sy'n darparu ar gyfer cynyddu'r rhestr hon yn y dyfodol:

- cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus mewn perthynas â threfniadau staffio a recriwtio;
- trefniadau staffio pan fo cyrff cyhoeddus yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau;
- hyfforddi a datblygu staff cyrff cyhoeddus;
- cynllunio gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas â maint a cyfansoddiad eu gweithlu;

- darparu gwybodaeth i staff cyrff cyhoeddus (gan gynnwys undebau llafur sy'n cynrychioli staff) am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, ynghyd â chyfleoedd i gyfrannu at y penderfyniadau hynny;

- rhannu gwybodaeth ynglŷn â staff a threfniadau staffio er mwyn hwyluso unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir uchod.

3 Byddai'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod o dan y Bil drafft yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol, ynghyd ag Awdurdodau Tân ac Achub.

4 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod gan y gwasanaeth hanes hir o gydweithio llwyddiannus a'i fod yn cefnogi'r egwyddor o ymgynghori â'r gweithwyr a'u cynrychiolwyr. Mae cyngor ac arweiniad ynglŷn â materion y gweithlu'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan staff proffesiynol cymwys a medrus Adnoddau Dynol. Mae'n aneglur pa faterion penodol yn ymwneud â'r gweithlu y byddai canllawiau statudol posibl yn ceisio mynd i'r afael â hwy, ac mae'n ymddangos fod yna ragdybiaeth waelodol y byddai un ateb yn addas i bob sefydliad sy'n dod o dan y Bil arfaethedig.

5 O ystyried hyd a lled y pwerau sydd yn y Bil, mae pryderon difrifol ynglŷn â cholli annibyniaeth sefydliadau, hyblygrwydd ac atebolrwydd lleol. Er enghraifft, rhwng 2010-2011 a 2013-2014 roedd yr Awdurdod wedi gallu gweithredu'n llwyddiannus strategaeth ariannol dair blynedd a oedd yn gofyn am arbedion o £2.45 miliwn drwy weithredu strategaeth adnoddau'r gweithlu er mwyn lliniaru'r risg o ddiswyddo diffoddwyr tân yn orfodol. Dan y Bil arfaethedig, gallai hyn gael ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru.

6 Mae Crynodeb Gweithredol yr ymgynghoriad yn nodi y byddai'r pŵer a roddir gan y Bil yn cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru yn arbennig i gefnogi cytundebau a wneir yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu (CPG). Byddai angen ailedrych ar rôl a gweithrediad y CPG petai modd gorfodi ei benderfyniadau drwy ganllawiau statudol. Dylai'r Aelodau nodi nad oes gan GTAGC sedd ar y CPG ond ei fod yn cael ei gynrychioli gan y Cyng. Tudor Davies o Wasanaeth Tân ac Achub y De.

## Argymhellion

7 Bod yr Aelodau'n gwneud y canlynol:

(i) nodi'r pryderon a godwyd mewn perthynas â Bil Drafft Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) (Cymru),

(ii) cytuno y bydd ymateb yr Awdurdod yn cael ei gymeradwyo drwy'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân oherwydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil.